OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3996 (Cy.327)

# AER GLÅN, CYMRU

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *13 Rhagfyr 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *17 Rhagfyr 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 20(6) a 63(1) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** —Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2001.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Rhagfyr 2001.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Tanwyddau awdurdodedig at ddibenion Deddf Aer Glân 1993**

**2.**—(1) Diwygir Atodlen 1 i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001(**3**)fel a ganlyn:

(2) Ar ôl paragraff 5 mewnosodir

"**5A.** Bord na Móna Firepak briquettes (sy'n cael eu marchnata hefyd fel Arigna Special coal briquettes), a weithgynhyrchir gan Bord na Móna Fuels Limited, Newbridge, County Kildare, Iwerddon—

(a) sy'n cynnwys glo caled (sef rhyw 50 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef rhyw 20 i 40 y cant o'r cyfanswm pwysau) glo meddal (sef rhyw 10 i 30 y cant o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres;

(**1**) 1993 p.11.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 2001/3762 (Cy.311).

(c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd ac sy'n pwyso 50 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy nag 1.5 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
13 Rhagfyr 2001 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Pan fydd mwg yn cael ei ollwng o simnai mewn ardal rheoli mwg a bod y simnai honno naill ai—

(a) yn simnai adeilad; neu

(b) yn simnai sy'n gwasanaethu ffwrnais bwyler sefydlog neu beiriannau diwydiannol (heb fod yn simnai adeilad),

mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("y Ddeddf") yn darparu bod meddiannydd yr adeilad, neu yn ôl fel y digwydd, y person sy'n meddu ar y bwyler neu'r peiriannau, yn euog o dramgwydd. Mae'n amddiffyniad os gellir dangos mai drwy ddefnyddio tanwydd awdurdodedig yn unig yr achoswyd y gollyngiad honedig.

O dan adran 20(6) o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, ddatgan bod tanwydd yn danwydd awdurdodedig at y diben hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001 fel bod Bord na Móna Firepak briquettes (sy'n cael eu marchnata hefyd fel Arigna Special coal briquettes) yn danwydd awdurdodedig ychwanegol.